# Sut Mae AGIC yn Arolygu Gwasanaethau Iechyd Meddwl

agic hiw | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru Healthcare Inspectorate Wales

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn gyfrifol am arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG a gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol ledled Cymru. Mae ein harolygiadau yn gwirio bod pobl yn derbyn gofal diogel o ansawdd uchel, a bod gwasanaethau yn cyrraedd yr holl safonau cyfreithiol a phroffesiynol perthnasol.

## Rydym yn arolygu i sicrhau:

- PBod hawliau pobl yn cael eu hamddiffyn o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.
- Bod gwasanaethau yn cyrraedd y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) ar gyfer y GIG neu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ar gyfer ysbytai annibynnol.
- Bod gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ddiogel ac yn effeithiol.

## Sut rydym yn cynllunio arolygiadau?

- Rydym yn defnyddio gwybodaeth am ansawdd y gofal, pryderon ac adborth i benderfynu pryd a ble i arolygu.
- Mae pob arolygiad iechyd meddwl yn ddirybudd heb gael gwybod amdano ymlaen llaw, er mwyn i ni weld sut mae gwasanaethau wir yn gweithredu.
- Rhoddir rhybudd am arolygiadau o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol (TIMCau), a cheir hyd at 12 wythnos o rybudd.



# Pwy sy'n mynychu Arolygiad Iechyd Meddwl?



- **Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC –** yn arwain yr arolygiad, adolygu polisïau a siarad â'r staff a'r cleifion.
- **Adolygwyr Cymheiriaid Clinigol –** gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol sy'n dod â phrofiad clinigol cyfredol.
- **Adolygwyr Profiad y Claf –** yn canolbwyntio ar glywed yn uniongyrchol gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
- Mae pob arolygiad o TIMC yn cael ei gynnal ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), felly bydd pob arolygiad o TIMC yn cynnwys un o arolygwyr AGC hefyd.

# Beth sy'n digwydd cyn ac yn ystod arolygiad?

Cyn (os ceir rhybudd): Caiff gwasanaethau eu hysbysu, ac mae'n bosibl y gofynnir i'r staff/cleifion gwblhau arolygon dienw.

Yn ystod: Mae aelodau'r tîm yn cyfarfod â'r rheolwyr, yn cael eu tywys o amgylch yr amgylchedd, yn arsylwi ar y gofal ac yn adolygu cofnodion (gan gynnwys cynlluniau gofal, asesiadau risg, a'r defnydd o ddulliau atal).

**Mae'r arolygwyr yn canolbwyntio ar y canlynol:**

1. Ansawdd profiad y claf
2. Gofal diogel ac effeithiol
3. Arweinyddiaeth a rheolaeth

Ar ddiwedd yr ymweliad, mae'r tîm yn rhoi adborth llafar ar y canfyddiadau allweddol.

## Beth rydym yn edrych amdano?

A yw hawliau ac urddas pobl yn cael eu parchu?

A yw'r gofal yn ddiogel, yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn?

A yw'r staff yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi'n dda?

A yw'r amgylchedd yn ddiogel ac yn therapiwtig?

A oes systemau cadarn ar gyfer meddyginiaethau, risg a llywodraethu?

## Ar ôl arolygiad:

- Caiff adroddiad drafft ei anfon i'r gwasanaeth o fewn chwe wythnos er mwyn gwirio cywirdeb ffeithiol.
- Os bydd risgiau brys wedi'u nodi, bydd AGIC yn cyhoeddi Llythyr Sicrwydd ar Unwaith (GIG) neu Hysbysiad Diffyg Cydymffurfio (sector annibynnol) o fewn dau ddiwrnod. Rhaid i wasanaethau gyflwyno Cynllun Gwella ar Unwaith o fewn 5–7 diwrnod.
- Caiff yr adroddiad arolygu terfynol ei gyhoeddi ar wefan AGIC, fel arfer o fewn tri mis.
- Rhaid i wasanaethau gyflwyno Cynllun Gwella sy'n nodi'r camau gweithredu a'r amserlenni ar gyfer ymdrin ag unrhyw faterion.

---

## Themâu diweddar o adroddiadau AGIC:

Mae AGIC wedi cyhoeddi ei Monitro Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Anableddau Dysgu a'r Ddeddf Iechyd Meddwl Adroddiad Blynyddol 2024-2025, sy'n amlinellu themâu ein gwaith ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu ledled Cymru. Mae adroddiad eleni yn ystyried safon y gofal mewn lleoliadau GIG a lleoliadau annibynnol rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, gan dynnu ar dystiolaeth o 25 o arolygiadau o fewn safleoedd, gan gynnwys 14 o arolygiadau o wasanaethau'r GIG ac 11 o ddarparwyr annibynnol. Roedd y rhain yn cynnwys gwasanaethau mewn ysbytai a thimau iechyd meddwl cymunedol, gyda ffocws parhaus ar gydymffurfiaeth gyfreithiol, diogelwch cleifion ac ansawdd y gofal.

### Prif Themâu yn Cynnwys:

- Pwysau ar y gweithlu a heriau recriwtio
- Rheoli meddyginiaethau a diogelwch cleifion
- Ansawdd y gwaith o gynllunio gofal ac asesiadau risg
- Pwysigrwydd cynnwys y cleifion a'u teuluoedd yn eu gofal.